



Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW


Dyddiad: 10 Medi 2018

Amser: 10.30am-3.00pm

Lleoliad: Canolfan Ddinesig Castell-nedd Port Talbot, SA13 1PJ

Agenda

	Eitem	
10.30am	1	Cyrraedd a chroeso i Gastell-nedd Port Talbot Croeso i Gastell-nedd Port Talbot a chyflwyniad i'r cyfarfod
	2	Ymddiheuriadau am Absenoldeb
	3	Datganiadau o Ddiddordeb
10.35am	4	Llythyrau, nodiadau a materion eraill sy'n deillio o gyfarfod Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW, a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018 a) Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018 b) Llythyrau Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr ERW i Gyd-bwyllgor ERW a'r llythyr ymateb c) Rhestr Aelodaeth Gyfredol
10.45am	5	Gosod y cyd-destun ar gyfer gwaith rhanbarthol ym maes addysg a) Y Model Cenedlaethol a'r Genhadaeth Genedlaethol b) Materion allweddol sy'n effeithio ar addysg ar hyn o bryd (sy'n benodol i ERW)
11.45am	6	Diweddariadau (Betsan O'Connor) a) Cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor ERW, a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 18 b) Bwrdd y Rhaglen Wella – Diweddariad c) Yr Adroddiad Mesur Effaith – Diweddariad
12.30pm		Cinio a rhwydweithio
1.15pm	7	Perfformiad Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 ledled rhanbarth ERW (Ian Altman, Arweinydd Strategol ERW ar gyfer Cymorth Uwchradd) a) Cyflwyno data o bob cwr o'r rhanbarth (gan gynnwys dadansoddiad ar gyfer bechgyn/merched, Plant sy'n Derbyn Gofal, disgyblion eFSM/disgyblion nad ydynt yn eFSM) b) Cynnydd y gwaith sy'n mynd rhagddo ledled y rhanbarth i wella deilliannau'r holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4
2.15pm	8	Diweddariad ar y Rhaglen Waith gan bob awdurdod lleol
2.45pm	9	Trafod y materion sy'n codi o'r cyfarfod hwn ar gyfer llythyr Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW, a chytuno ar faterion i'w trafod yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW, i'w gynnal ym mis Mawrth 2019
3.00pm		Cau



Agenda Item 2a

Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW Nodiadau – 9 Mawrth 2018

Yn bresennol:

Y Cyng. Darren Price, Sir Gaerfyrddin (*Cadeirydd*)
Y Cyng. Edward Thomas, Sir Gaerfyrddin
Y Cyng. David Jones, Powys
Y Cyng. Susan McNicholas, Powys
Y Cyng. Odwyn Davies, Ceredigion
Y Cyng. Mary Jones, Abertawe
Y Cyng. Lyndon Jones, Abertawe
Y Cyng. John Davies, Sir Benfro
Y Cyng. Steve Yelland, Sir Benfro
Y Cyng. Alex Thomas, Castell-nedd Port Talbot
Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet, Llywodraeth Cymru
Steve Davies – Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru
Helen Charles – Ysgrifennydd Preifat Kirsty Williams
Angela Proctor, Rheolwr Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW
Ian Altman, Tîm Arweinwyr Dysgu ERW
Non Walters, Tîm Arweinwyr Dysgu ERW
Betsan O'Connor (Rheolwr Gyfarwyddwr ERW)
Elizabeth Patterson (Swyddog Craffu, Powys)
Michelle Roberts (Swyddog Craffu, Abertawe)
Selma Abdullah (Ymchwil Craffu, Abertawe)
Lisa Evans (Swyddog Craffu, Ceredigion)
Michelle Evans Thomas (Swyddog Craffu, Sir Gaerfyrddin)
Lynne Richards (Swyddog Craffu, Sir Benfro)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. Mathew Crowley (Castell-nedd Port Talbot), y Cyng. Endaf Edwards (Ceredigion)

Eitem		Cam Gweithredu
1.	Cyrraedd a chroeso i Sir Gaerfyrddin Cadeirydd y cyfarfod oedd Darren Price, sef cynrychiolydd o Gyngor Sir Caerfyrddin a oedd yn lletya'r cyfarfod. Croesawodd bawb i Neuadd y Sir yng Nghaerfyrddin.	
2.	Datganiadau o Fuddiant – Dim	
3.	Tlodi yn Ardaloedd Gwledig Cymru Amlinellodd Betsan O'Connor ganfyddiadau papur diweddar yn sôn am effeithiau tlodi gwledig ar gyrhaeddiad addysgol mewn rhannau gwledig o Gymru. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Mai ychydig iawn o waith ymchwil a gwerthuso sydd wedi cael ei wneud ar effaith tlodi ar ardaloedd gwledig. • Bod yr holl faterion dilynol yn effeithio ar berfformiad a chyfleoedd bywyd disgyblion, a'u bod yn uniongyrchol gysylltiedig â gwella ysgolion. • Bod llawer o ysgolion yn defnyddio eu Grantiau Datblygu Disgyblion i geisio lliniaru'r diffyg hwn. • Bod yna bedwar prif thema yn ymwneud â thlodi gwledig, sef:	

	○ Sefydliad yr ysgol ○ Tlodi ac ynysu gwledig ○ Seilwaith economaidd-gymdeithasol; a ○ Dyheadau • Nodwyd bod yr heriau canlynol yn gysylltiedig â thlodi gwledig: ○ Recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr ○ Datblygu polisiau a strategaethau ○ Cynyddu cyfranogiad rhieni ○ Ynysu daearyddol ○ Cydweithredu ysgol i ysgol ○ Maint y gymuned/poblogaeth fach ○ Sefydliad yr ysgol a'r amgylchedd dysgu ○ Ysgolion bach ○ Dyheadau disgyblion • Beth sy'n cael ei wneud/beth yw'r camau gweithredu er mwyn symud ymlaen? ○ Comisiynu gwaith ymchwil teilwng i adolygu ffeithiau, casglu safbwyntiau disgyblion, ac adolygu effaith polisiau a fformiwlâu cyllido. ○ Sefydlu grŵp ymchwilio sy'n cynnwys unigolion allweddol ○ Chwilio am bethau cadarnhaol ○ Rhaid i'r datrysiadau gynnwys technoleg. Nodwyd bod y seilwaith yn wan yn y cymunedau hyn. ○ Rhaid i'r datrysiadau borthi'r seilweithiau economaidd ac economaidd-gymdeithasol. • Amserlen ar gyfer y gwaith ymchwil – y cam cyntaf ym mis Mehefin 2018, a'r ail gam ym mis Medi 2018, gan barhau tan fis Ebrill 2019. • Dywedwyd bod trafndiaeth yn fater allweddol, a dylid ei ystyried yn rhan o'r gwaith ymchwil. • Amlygwyd y pwysigrwydd o godi dyheadau mewn ysgolion trwy ddefnyddio aelodau neu fusnesau llwyddiannus yn y gymuned i ysbrydoli pobl ifanc. • Nodwyd bod yr hyn sy'n digwydd yn y cartref yr un mor bwysig, ac roedd y Grŵp o'r farn bod ymgysylltu â rhieni yn allweddol, er ei fod yn heriol. Dywedwyd bod angen gwella cyfranogiad ac ymgysylltu rhieni wrth ymwneud ag addysg eu plant. • Credwyd bod defnyddio Prydau Ysgol am Ddim i asesu anghenion yn offeryn mesur dibwrpas.	
2.	Llythyrau, nodiadau a materion eraill sy'n codi o gyfarfod blaenorol Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW ar 29 Medi 2017 Daeth y canlynol i law'r Grŵp Craffu: a) Blog a gyhoeddwyd wedi'r cyfarfod diwethaf b) Nodiadau o gyfarfod 29 Medi 2017 c) Llythyr Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW i'r Cyd-bwyllgor, a chofnodion yr ymateb d) Llythyr yn gwahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a'i hymateb hithau. e) Y Cylch Gorchwyl a'r Rhestr o Aelodau diweddaraf	
3.	Diweddariad ar Raglen Adolygu a Diwygio ERW Amlinellodd Angela Proctor, Rheolwr Prosiect Rhaglen Adolygu a	

	Diwygio ERW, y cynnydd a wnaed yn unol â'r rhaglen (cyflwyniad manwl ar gael). Yn fras, clywodd y Grŵp am 'yr achos dros newid', gan gynnwys: • Y rhesymau y tu ôl i'r angen am newid • Y cynnydd yn erbyn argymhellion gwreiddiol Estyn • Estyn Rhagfyr 2017 • Gwybodaeth am y cam paratoadol a'i werthoedd • Yr hyn yw gwasanaeth gwella ysgolion, a nodweddion y gwasanaeth gwella ysgolion sydd wedi cael ei fireinio ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. • Llywodraethu gan gynnwys yr egwyddorion cynllunio • Y risgiau o beidio â symud ymlaen yn brydlon. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r wybodaeth a ddaeth i law, a nodwyd y canlynol: • Roedd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW yn bryderus iawn bod cynnydd y rhaglen ddiwygio wedi arafu, a bod hynny wedi arwain at ddiffyg symudiad o ran y gwelliannau sy'n angenrheidiol i ERW ddatblygu'n effeithiol. Yn eu llythyr i'r Cyd-bwyllgor, bydd y Grŵp yn annog aelodau'r Cyd-bwyllgor i roi eu gwahaniaethau i'r naill ochr, gan gydweithio er mwyn dod i gytundeb a fydd yn rhoi'r gwasanaeth gorau i ddisgyblion ledled ein rhanbarth. • Clywodd y Grŵp nad oedd yna gonsensws ar y pryd ledled pob awdurdod lleol yn rhanbarth ERW, nac ymysg y Cyd-bwyllgor, ynghylch y ffordd ymlaen. Cawsant ar ddeall bod gan un awdurdod lleol bryderon am symud y cyfrifoldeb uniongyrchol am wella agweddau ar addysg i gronfa ganolog, a'i fod o'r farn y byddai hynny'n arwain at leihau'r atebolrwydd a'r ymatebolrwydd i anghenion lleol. • Roedd mwyafrif Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW yn gefnogol i'r ffordd hon ymlaen, fel y nodir yn y Rhaglen Adolygu a Diwygio, gan gynnwys canoli'r gwasanaethau gwella addysg i ERW (a fydd yn atebol i bob awdurdod lleol trwy Reolwr Gyfarwyddwr ERW, a thrwy'r Cyd-bwyllgor). Roedd un cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Awdurdodau Lleol yn anghytuno â'r ffordd hon ymlaen ar y pryd. • Credwyd mai'r Rhaglen Ddiwygio, fel yr amlinellwyd wrth y Grŵp, oedd y ffordd orau ymlaen i ERW. Cytunwyd ar hyn gan fwyafriif Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW, a hynny ar ôl clywed 'yr achos dros newid' ar gyfer ERW, a'r angen i symud ymlaen a mynd i'r afael â heriau cyfredol, a heriau'r dyfodol. Roeddent o'r farn bod y dystiolaeth i barhau ar hyd y llwybr hwn yn glir, a nodwyd y gellir gweld llawer o hyn trwy'r modd y mae'r tri Chonsortium arall yng Nghymru yn gweithio. • Hoffai'r Grŵp weld y Cyd-bwyllgor yn gwneud penderfyniad ar frys, a bod ffordd glir ymlaen yn cael ei sefydlu. Byddent hefyd am gael gwybod am yr amserlen o ran gwneud penderfyniad, ynghyd â symud y cynllun ymlaen cyn gynted â phosibl wedi hynny. Byddant yn gofyn y cwestiynau canlynol i'r Cyd-bwyllgor: a) A allwch chi roi gwybod i ni ar frys am yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad i symud ymlaen â Rhaglen Ddiwygio ERW?	Cais am wybodaeth bellach yn y llythyr i'r Cyd-bwyllgor
--	--	---

	b) A allwch chi nodi'r amserlenni ar gyfer symud ymlaen â'r broses o roi'r newidiadau hynny ar waith?	
4.	Deilliannau Addysgol ledled Rhanbarth ERW Roedd Ian Altman a Non Walters, o Dîm Arweinwyr Dysgu ERW, yn bresennol yn y cyfarfod i ddarparu gwybodaeth am y deilliannau addysgol dros y tair blynedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys: • Data a siartiau yn manylu ar y deilliannau addysgol ledled y rhanbarth ar gyfer 2015, 2016 a 2017. • Meysydd o gryfder a meysydd i'w gwella • Darpariaeth ar gyfer cymorth effeithiol, gan gynnwys: ○ Pwyslais ar gymorth ○ Rhwydweithiau Hwb ○ Cynllunio strategol a datblygu gweledigaeth gyffredin ○ Cynllun mentora a chymorth ar gyfer rheolwyr canol ○ Meithrin galluedd adrannau craidd ○ Cyfarfodydd cymorth a her misol ○ Cydweithio â'r Tîm Arwain i gyflwyno system dracio effeithiol ○ Datblygu sgiliau arwain, hunan-arfarnu a chynllunio gwelliant arweinwyr canol ○ Datblygu gwell dealltwriaeth o ran dadansoddi data er mwyn sicrhau bod hynny'n arwain at ymyraethau da ○ Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion addysgu da ○ Datblygu strategaethau mwy effeithiol ar gyfer marcio a rhoi adborth ○ Cynnal cyfarfodydd rhwydwaith, ynghyd â hyfforddiant a chymorth anarbenigol ○ Astudiaethau gwersi/modelu arfer da • Ysgolion sy'n peri pryder a'r cynnydd sy'n cael ei gyflawni • Trafodwyd materion yn ymwneud â hyfforddi athrawon, yn ogystal â phrinder athrawon Mathemateg a'r rheiny sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ledled y cwricwlwm. Clywodd y Grŵp fod rhywfaint o waith wedi'i gwblhau ar y cyd â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gynyddu'r niferoedd yn y pynciau hyn, ond roeddent yn credu bod cynnal mwy o waith yn y maes hwn yn angenrheidiol. Byddant yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor: <i>'Pa waith sydd wedi cael ei gynllunio dros y blynnyddoedd nesaf i gynyddu'r nifer sy'n ymgeisio am swyddi addysgu ym maes Mathemateg, ynghyd â'r rheiny sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ledled y cwricwlwm?'</i>	Cais am wybodaeth bellach yn y llythyr i'r Cyd-bwyllgor
5.	Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yng Nghymru, Kirsty Williams Roedd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, yn bresennol yn y cyfarfod, a mynegodd ei safbwyntiau ynghylch gweithio'n rhanbarthol ym maes addysg, a'r ffordd ymlaen i Gymru. Amlinellodd ei gweledigaeth o ran gweithio'n rhanbarthol yn y dyfodol, cyn troi ei sylw at ranbarthau ERW yn benodol. Yn ei barn hi, nid oedd ERW wedi cyrraedd y fan lle y dylai fod, a dywedodd ei fod mewn perygl o siomi plant y rhanbarth oni bai y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud. Clywodd y Grŵp ei bod yn bosibl i'r consortïwm wella'n gyflym, a rhoddodd enghraifft o	

	gonsortiw GwE, sydd wedi gwella'n gyflym o drothwy isel yn wreiddiol, a hynny unwaith y cytunwyd ar gynllun clir i symud ymlaen. Nododd nad oedd neb yn dymuno gweld y rhanbarth yn cael ei adael ar ôl. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod wedi trafod y mater hwn â Chadeirydd y Cyd-bwyllgor, gan gynnwys canlyniadau adroddiad Estyn a phroses hunan-arfarnu ERW, a'i bod wedi cael sicrwydd y bydd camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith. Mynegodd bryder nad oedd wedi cael gwybod am yr un cam gweithredu a oedd wedi codi hyd hynny. Gofynnodd y Grŵp am y modd y gellir symud ymlaen o'r fan hon. Dywedodd bod yn rhaid i'r rhanbarth dorchu eu llewys ar y cyd er mwyn gwrthio'r system gyfan yn ei blaen. Dywedodd nad oedd dim i'w ofni o ganlyniad i'r newid hwn, ac o'i gyflawni, ni allai'r rhanbarth ond gwella. Gofynnodd y Grŵp a allai awdurdod lleol gael ei eithrio o'r consortiw rhanbarthol. Clywodd y Grŵp y byddai'n rhaid profi hynny'n gyfreithiol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r adnoddau sydd ar gael i un awdurdod lleol, ar ei ben ei hun, gyflawni'r cyfan sy'n ofynnol ar y pryd, ynghyd â darparu gwasanaeth yn y dyfodol, yn heriol iawn o ystyried bod cymaint mwy o bethau'n cael eu cyflawni trwy'r model rhanbarthol. Yn ei barn hi, dywedodd y byddai'n rhaid iddi ystyried y modd y byddai'r plant yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu heffeithio, ac ni fyddai'n caniatáu i'r effaith honno fod yn un niweidiol. Gofynnodd y Grŵp hefyd am y cam nesaf o ran gweithio'n rhanbarthol ar gyfer y pedwar Consortiw. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod grŵp adolygu'r model cenedlaethol yn edrych ar y camau nesaf bryd hynny, ac roedd y rheiny'n cynnwys: – Atebolrwydd – Rôl a statws y Rheolwr Gyfarwyddwr – Y berthynas rhwng awdurdodau lleol unigol – Y Cyfnod Sylfaen yn symud ymlaen – Rolau posibl eraill ar gyfer y consortia gan gynnwys, e.e. cymorth i lywodraethwyr, hyfforddi llywodraethwyr, ac arbenigwyr Adnoddau Dynol – Y modd yr ymdriniodd rhannau gwahanol o'r wlad â chyni. Gofynnwyd hefyd i Ysgrifennydd y Cabinet am y ffordd arfaethedig ymlaen ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref, a dywedodd: • Bod yna ystyriaeth i ddefnyddio pwerau cyfredol i ofyn i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata, ac i'r maes ieuchyd ei phoblogi. Byddai'r gronfa hon yn cael ei defnyddio fel sail i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg addas. • Bod yna waith ar y gweill ac ymrwymiad i gyflawni hynny, ond ei fod yn berthnasol i blant oed ysgol statudol yn unig. Nododd ei fod yn gam ymlaen. • Bod yna hefyd becyn cymorth yn cael ei gynllunio a fyddai ar gael i Addysgwyr yn y Cartref, ac a fyddai'n cynnwys cymorth i ddysgu Cymraeg, yn ogystal â mynediad at Hwb, canolfannau arholi a labordai gwyddoniaeth.	
--	---	--

6.	Trafod pwyntiau'r llythyr at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor, a nodi bod y camau nesaf ar gyfer Grŵp Cyngorwyr Craffu ERW yn cynnwys: 1. Anfon llythyr yn manylu ar ganlyniadau'r cyfarfod hwn i'r Cyd-bwyllgor. 2. Paratoi'r wybodaeth ofynnol ar gyfer y cyfarfod nesaf, gan gynnwys: • Adroddiad Mesur Effaith • Cynnydd Bwrdd y Rhaglen • Diweddariadau'r Rhaglen Waith 3. Ysgrifennu blog ar ddigwyddiad craffu'r diwrnod hwnnw, a'i rannu. 4. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Medi 2018. Bydd yn cael ei letya gan Gastell-nedd Port Talbot.	Cymorth Craffu/Grŵp Cyngorwyr Cymorth Craffu Castell-nedd Port Talbot
----	--	---

Item 4b

ERW
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

16 Gorffennaf, 2018

At: Y Cyngorydd Darren Price
Cadeirydd Grŵp Cyngorwyr Craffu ERW

Annwyl Gyngorydd,

Hoffwn i, a'r Cyd-bwyllgor, ddiolch i chi am eich gohebiaeth, yn ogystal â chydabod gwaith gwerthfawr Grŵp Cyngorwyr Craffu ERW wrth gyfrannu at atebolrwydd democrataidd ERW. Cyn mynd i'r afael â'r cwestiynau a godwyd yn eich llythyr at y Cyd-bwyllgor, hoffwn yn gyntaf fynd i'r afael ag amseriad yr ymateb hwn. Yn anffodus, roedd y cyfnod byr rhwng cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor a Grŵp Cyngorwyr Craffu ERW ym mis Mawrth yn golygu nad oedd yn bosibl i'r papurau gael eu paratoi mewn da bryd ar gyfer cynnwys eitem swyddogol ar agenda'r Cyd-bwyllgor. Fodd bynnag, rydym wedi achub ar y cyfle cyntaf posibl i gyflwyno'r eitem hon i'w thrafod, ac i lunio ymateb.

1. Amserlen Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW

Pan ddaeth gohebiaeth gan y Grŵp Cyngorwyr Craffu i law Cyd-bwyllgor ERW, nid oedd yr un papur ffurfiol wedi cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW. Nid oedd Tîm y Rhaglen, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Addysg ERW, eto wedi dod i gytundeb ar gynnwys eu papurau yr oedd angen i'r Cyd-bwyllgor ei gymeradwyo. Felly, penderfynwyd na allai'r tîm gyflwyno darn o waith i'r Cyd-bwyllgor nas cytunwyd arno'n llwyr.

2. Cynnydd ac Amserlen Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW

Mae'r mater hwn o'i hanfod yn gysylltiedig â'r pwynt uchod – bydd y cynnydd a'r amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw gam/dasg yn cael eu nodi yn dilyn cytundeb digonol ar lefel y swyddogion, ac yn dilyn y gymeradwyaeth angenrheidiol gan yr Aelodau Etholedig. Fodd bynnag, mae'r cynnydd a wneir o ran y Rhaglen Adolygu a Diwygio wedi'i gysylltu'n agos â'r gwaith o ddiweddarau'r Model Cenedlaethol Newydd, ac mae'r Cyd-bwyllgor yn betrusgar o ran ymrwymo i unrhyw newidiadau ar raddfa fawr na fyddent, o bosibl, yn cydymffurfio â'r model newydd ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.

3. Recriwtio

Mae Tîm Canolog ERW yn gweithio gyda'r tri rhanbarth arall ar yr ymgyrch #DarganfodAddysgu, a gynlluniwyd i recriwtio a chadw athrawon. Rydym hefyd wedi cychwyn ar rhaglen genedlaethol o hyrwyddo dysgu fel proffesiwn, ac mae gan y rhaglen gynllun gwaith cynhwysfawr.

Yr eiddoch yn gywir,



Y Cyngorydd Elen ap Gwynn
Cadeirydd ERW



At: **Y Cyng. Ellen ap Gwynn**
Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW

Gofynnwch am: Y Tîm Craffu

Llinell y Swyddfa Graffu: 01792 637256

e-bost: scrutiny@swansea.gov.uk

Dyddiad: 28 Mawrth 2018

Annwyl Gyngorydd ap Gwynn,

Grŵp Cyngorwyr Craffu ERW – 9 Mawrth 2018

Daeth Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu ar Addysg pob un o'r chwe awdurdod lleol ynghyd yng Nghaerfyrddin ar gyfer cyfarfod hanner blyneddol y Grŵp Cyngorwyr Craffu. Ysgrifennaf atoch i nodi eu safbwyntiau, eu casgliadau a'u hargymhellion yn dilyn y cyfarfod hwnnw ar 9 Mawrth 2018.

Y Rhaglen Adolygu a Diwygio

Rydym yn bryderus iawn bod cynnydd y rhaglen ddiwygio wedi arafu, a bod hynny wedi arwain at ddiffyg symudiad o ran y gwelliannau sy'n angenrheidiol i ERW ddatblygu'n effeithiol. Rydym yn annog aelodau'r Cyd-bwyllgor i roi eu gwahaniaethau i'r naill ochr, gan gydweithio er mwyn dod i gytundeb a fydd yn rhoi'r gwasanaeth gorau i bob disgybl ledled ein rhanbarth.

Rydym wedi clywed nad oes yna gonsensws ar hyn o bryd ledled pob awdurdod lleol yn rhanbarth ERW, nac ymysg y Cyd-bwyllgor, ynghylch y ffordd ymlaen. Rydym ar ddeall bod gan un awdurdod lleol bryderon am symud y cyfrifoldeb uniongyrchol am wella agweddau ar addysg i gronfa ganolog, ac roedd o'r farn y byddai hynny'n arwain at leihau'r atebolrwydd a'r ymatebolrwydd i anghenion lleol.

Roedd mwyafrif Grŵp Cyngorwyr Craffu ERW yn gefnogol i'r ffordd hon ymlaen, fel y nodir yn y Rhaglen Adolygu a Diwygio, gan gynnwys canoli'r gwasanaethau gwella addysg i ERW (a fydd yn atebol i bob awdurdod lleol trwy Reolwr Gyfarwyddwr ERW, a thrwy'r Cyd-bwyllgor). Roedd un cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Awdurdodau Lleol yn anghytuno â'r ffordd hon ymlaen ar y pryd. Roedd y gwrthwynebiad hwn yn seiliedig ar bryderon y byddai'r canoli arfaethedig yn peryglu'r berthynas o ymddiriedaeth a gwybodaeth rhwng ymgynghorwyr ac ysgolion, y byddai'n gwneud y gwasanaeth yn llai ymatebol i anghenion lleol, ac y byddai'n gwahanu'r cyfrifoldeb rheoli oddi wrth y cyrff sydd â chyfrifoldeb statudol am safonau ysgolion.

Roedd y mwyafrif o'r farn mai'r Rhaglen Ddiwygio, fel yr amlinellwyd wrth y Grŵp, oedd y ffordd orau ymlaen i ERW. Cytunwyd ar hyn ar ôl clywed 'yr achos dros newid' ar gyfer ERW, a'r angen i symud ymlaen a mynd i'r afael â heriau cyfredol, a heriau'r dyfodol.

Credwn fod y dystiolaeth i barhau ar hyd y llwybr hwn yn glir, a nodwyd y gellir gweld llawer o hyn trwy'r modd y mae'r tri Chonsortium arall yng Nghymru yn gweithio. Hoffem hefyd ailadrodd y pwysigrwydd o sicrhau bod gan Ymgynghorwyr Her yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant i allu cynnig lefel gyson o gymorth ledled pob ysgol yn y rhanbarth.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, yn bresennol yn ein cyfarfod, a mynegodd ei safbwyntiau ynghylch gweithio'n rhanbarthol ym maes addysg, a'r ffordd ymlaen i Gymru. Yn ei barn hi, nid oedd ERW wedi cyrraedd y fan lle y dylai fod, a dywedodd ei fod mewn perygl o siomi plant y rhanbarth oni bai y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud. Clywsom ei bod yn bosibl i'r consortium wella'n gyflym, a rhoddodd enghraifft o gonsortium GwE, sydd wedi gwella'n gyflym o drothwy isel yn wreiddiol, a hynny unwaith y cytunwyd ar gynllun clir i symud ymlaen. Nododd nad oedd neb yn dymuno gweld y rhanbarth yn cael ei adael ar ôl. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod wedi trafod y mater â chi, gan gynnwys canlyniadau adroddiad Estyn a phroses hunan-arfarnu ERW, a'i bod wedi cael sicrwydd gennych chi y bydd camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith. Mynegodd bryder nad oedd wedi cael gwybod am yr un cam gweithredu a oedd wedi codi hyd hynny.

Beth yr ydym am ei weld yn digwydd 'nawr?

Hoffem i'r Cyd-bwyllgor wneud penderfyniad ar frys, a bod ffordd glir ymlaen yn cael ei sefydlu. Hoffem gael gwybod gennych chi am yr amserlen o ran gwneud penderfyniad, a hoffem i'r cynllun gael ei symud ymlaen cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Er bod y Rhaglen Adolygu a Diwygio wedi dominyddu'r cyfarfod, ystyriom hefyd Diodi yn Ardaloedd Gwledig Cymru, a'r deilliannau addysgol diweddaraf ledled y rhanbarth. Amlygwyd, trwy'r trafodaethau hyn, faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw athrawon, yn arbennig athrawon Mathemateg a'r rheiny sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ledled y cwricwlwm. Clywsom fod rhywfaint o waith wedi cael ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant er mwyn cynyddu'r niferoedd, ond roeddem o'r farn bod gwneud mwy o waith ar y cyd â cholegau ac ysgolion lleol yn angenrheidiol i gynyddu nifer yr unigolion sy'n ymgeisio am y swyddi hyn.

Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar unrhyw agwedd ar y llythyr hwn, ond gofynnwn yn benodol i chi ymateb yn ysgrifenedig i'r materion canlynol, gan ymateb i bwyntiau 1 a 2 cyn gynted â phosibl.

1. A allwch chi roi gwybod i ni ar frys am yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad i symud ymlaen â Rhaglen Ddiwygio ERW?
2. A allwch chi nodi'r amserlenni ar gyfer symud ymlaen â'r broses o roi'r newidiadau hynny ar waith?
3. Pa waith sydd wedi cael ei gynllunio dros y blynyddoedd nesaf i gynyddu'r nifer sy'n ymgeisio am swyddi addysgu ym maes Mathemateg, ynghyd â'r rheiny sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ledled y cwricwlwm?

Yr eiddoch yn gywir,

Y Cyng. Darren Price
Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW

DaPrice@carmarthenshire.gov.uk

Darperir Cymorth Craffu Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW gan Gyngor Abertawe
Cyswllt: Y Tîm Craffu, Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE

☎ 01792 637256

✉ michelle.roberts@abertawe.gov.uk

Item 4c

Rhestr o Aelodau Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW (2018/2019)

Awdurdod Lleol	Cynghorydd/Aelod-gynrychiolwyr	Cyfeiriadau e-bost yr Aelodau	Swyddogion Craffu a Swyddogion Cymorth eraill
Abertawe	Y Cyng. Mo Sykes (Cynullydd y Panel Craffu ar Berfformiad Ysgolion) Y Cyng. Mary Jones (Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu) <i>Eilydd: Y Cyng. Lyndon Jones</i>	Clr.mo.sykes@swansea.gov.uk Clr.mary.jones@swansea.gov.uk Clr.lyndon.jones@swansea.gov.uk	Michelle Roberts Michelle.roberts@swansea.gov.uk Brij Madahar Brij.madahar@swansea.gov.uk
Castell-nedd Port Talbot	Y Cyng. Alex Thomas Y Cyng. Matthew Crowley Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg, Sgiliau a Diwylliant	Clr.a.l.thomas@npt.gov.uk Clr.m.crowley@npt.gov.uk	Jason Davies j.j.davies@npt.gov.uk Charlotte Davies c.l.davies2@npt.gov.uk
Ceredigion	Y Cyng. Odwyn Davies Y Cyng. Endaf Edwards Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Gymunedau sy'n Dysgu	odwyn.davies@ceredigion.gov.uk endaf.edwards@ceredigion.gov.uk	Lis Williams Lis.Williams@ceredigion.gov.uk Lisa Evans Lisa.Evans3@ceredigion.gov.uk
Powys	Y Cyng. David Jones (Aelod Arweiniol y Grŵp Craffu ar Addysg) Y Cyng. Susan McNicholas (Aelod o'r Grŵp Craffu ar Addysg)	cllr.david.jones@powys.gov.uk cllr.susan.mcnicholas@powys.gov.uk	Elizabeth Patterson Elizabeth.patterson@powys.gov.uk
Sir Benfro	Y Cyng. John Davies (Cadeirydd y Pwyllgor Dysgu ac Ysgolion) Y Cyng. Steve Yelland (Is-gadeirydd y Pwyllgor Dysgu ac Ysgolion)	Clr.johnt.davies@pembrokeshire.gov.uk Clr.steve.yelland@pembrokeshire.gov.uk	Lynne Richards lynne.richards@pembrokeshire.gov.uk
Sir Gaerfyrddin	Y Cyng. Darren Price (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant) Y Cyng. Edward Thomas (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant)	DaPrice@carmarthenshire.gov.uk EGThomas@carmarthenshire.gov.uk	Michelle Evans Thomas MEEvansThomas@carmarthenshire.gov.uk
Arall	ERW	Osian.evans@erw.co.uk betsan.oconnor@erw.org.uk	Osian Evans Betsan O'Connor

Item 6a

Cyd-Bwyllgor ERW
Dydd Mercher, 21ain Mawrth, 2018
Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin
10.30 am - 1.20 pm

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn [Cadeirydd] Cyngor Sir Ceredigion

Y Cynghorydd Myfanwy Alexander	Cyngor Sir Powys
Y Cynghorydd Jennifer Raynor	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd David Simpson	Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd Rob Stewart	Dinas a Sir Abertawe
Mr Phil Roberts	Prif Weithredwr Arweiniol ERW a Chyngor Dinas a Sir Abertawe
Mr Gareth Morgans	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mr Eifion Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Mr Ian Westley	Cyngor Sir Penfro
Ms Betsan O'Connor	Rheolwr Gyfarwyddwr ERW
Mr Ian Budd	Cyngor Sir Powys – Cyfarwyddwr Arweiniol
Mr Jonathan Haswell	Cyngor Sir Penfro (Swyddog A151 ERW)
Ms Elin Prysor	Cyngor Sir Ceredigion (Swyddog Monitro)
Mr Chris Llewellyn	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mr Steve Vincent	Lywodraeth Cymru
Mr Kevin Thomas	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd E. Dole (Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cynghorydd Rosemarie Harris (Cyngor Sir Powys), y Cynghorydd Rob Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot), Mr M. James (Cyngor Sir Caerfyrddin), a Mr Steven Phillips (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot)

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL.



Ni chafwyd yr un datganiad o fuddiant personol.

3. LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR AR Y CYD A GYNHALWYD AR Y 1AF RHAGFYR 2017.

Cyfeiriwyd at y cywiriad a gofnodwyd yng nghofnod 3, h.y. "creu cynlluniau clir i sicrhau a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol â'r chwe Cyfarwyddwyr Addysg..." Mynegwyd y farn bod y cofnod yn anghywir, ac y dylid cadw'r cyfeiriad at y chwe Chyfarwyddwr Addysg.

Nodwyd hefyd na fyddai Penaethiaid yn cael eu henwebu'n aelodau o'r panel adolygu, er y byddent yn ymwneud â'r broses adolygu.

CYTUNWYD y dylid llofnodi'n gofnod cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2017, a hynny'n amodol ar ddiwygio rhan gyntaf y penderfyniad ar gyfer Cofnod 3 i gyfeirio at y chwe Chyfarwyddwr Addysg:

- **"creu cynlluniau clir i sicrhau a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol â'r chwe Chyfarwyddwyr Addysg a Phenaethiaid trwy gydol y broses, ynghyd â sicrhau bod y Cynllun Busnes yn cael ei roi ar waith mewn modd cyson"**

Materion sy'n Codi o'r cofnodion:

1. Cofnod 3 – Cofnodion – 21 Medi 2017

Cyfeiriwyd at y sylw clo yng Nghofnod 3 am y canlyniadau TGAU, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam nad oedd yr adroddiad hwnnw wedi cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod y diwrnod hwnnw, fel y cytunwyd gan y Cyd-bwyllgor.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y gellid anfon copi o'r canlyniadau yn uniongyrchol i aelodau'r Cyd-bwyllgor, ac y byddai eitem ar hynny yn cael ei rhoi ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Yn sgil yr uchod, awgrymodd Mr Gareth Morgans y gallai fod yn fuddiol i adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor yn y dyfodol ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y cyfeiriad ar gyfer y dyfodol a'r broses o newid i'r safonau/mesurau atebolrwydd newydd yn seiliedig ar y naw canlyniad TGAU gorau. Mynegodd y Cadeirydd y farn y dylid cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar berfformiad a thueddiadau ar lefel 2 er mwyn sicrhau eglurder o ran cyfeiriad ERW yn y dyfodol

CYTUNWYD:

- 1. y dylid rhoi copi o'r canlyniadau TGAU i aelodau'r Cyd-bwyllgor, a rhoi eitem ar hynny ar yr agenda i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor;**
- 2. y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor yn y dyfodol ar ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch y broses o symud i safonau/mesurau atebolrwydd newydd yn seiliedig ar y naw canlyniad TGAU gorau;**



**3. y dylid cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y
Cydbwyllgor ar berfformiad a thueddiadau ar lefel 2.**

2. Cofnod 5 – Llythyr gan y Grŵp Craffu

Cyfeiriwyd at y llythyr a gafwyd gan Grŵp y Cynghorwyr Craffu, ac at gyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018, lle y cafodd gyflwyniad gan y Rheolwr Rhaglen. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y cafodd y cyflwyniad hwnnw ei wneud heb iddo gael ei wneud yn gyntaf i'r Cyd-bwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y cyflwyniad wedi cael ei wneud ar gais Grŵp y Cynghorwyr.

CYTUNWYD y byddai copïau o'r cyflwyniad i Grŵp y Cynghorwyr Craffu yn cael ei ddosbarthu i'r Cyd-bwyllgor, ac y byddai'r un cyflwyniad yn cael ei wneud i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

3. Cofnod 6 – Diweddariad Ariannol ERW – Chwarter 2 2017-18

Cyfeiriwyd at benderfyniad 6.4, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd llythyrau wedi cael eu hanfon at Mr Mark Drakeford AC a Kirsty Williams AC. Er na wyddai a oedd y llythyrau wedi cael eu hanfon, dywedodd y Swyddog A151 fod cyfarfod wedi cael ei gynnal ers hynny â'r Gweinidog, lle cadarnhawyd bod sylw'n cael ei roi i'r anawsterau blaenorol a gododd o ran y broses grantiau, ac y byddai mesurau newydd ar waith ar gyfer dyfarniadau grant 18/19.

Awgrymwyd y dylai penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor gael eu dyrannu i swyddogion penodol i'w gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith.

CYTUNWYD y dylid gofyn i'r Prif Weithredwr Arweiniol gyflwyno trefniadau i sicrhau bod penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor yn cael eu rhoi ar waith.

4. Cofnod 11 – Gofod Swyddfa

Gofynnwyd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr egluro pam yr oedd yr adroddiad drafft cychwynnol yn datgan y byddai'r les yn dod i ben ddiwedd mis Mai 2018, pan nad oedd yna unrhyw les yn bodoli mewn gwirionedd? Wrth ymateb i ymholiad ynghylch les ERW ar gyfer gofod swyddfa yn Y Llwyfan, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod is-les yn bodoli mewn perthynas â meddiannaeth ERW o dair ystafell ar y llawr cyntaf, ond nad oedd unrhyw dystiolaeth o les yn bodoli mewn perthynas â'i swyddfeydd ar y llawr gwaelod, les yr oedd yn talu rhent amdani. Dywedodd fod y safle wedi bod yn weithredol ers deng mlynedd, a bod meddiannaeth y tenantiaid presennol ar fin cael ei hadolygu; roedd trafodaethau mewn perthynas â hynny yn mynd rhagddynt â'r landlord. Cadarnhawyd bod meddiannaeth ERW o'r safle yn ddiogel tra bo'r trafodaethau'n mynd rhagddynt.



Yn y cyfamser, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylai adroddiad ar gynnydd y trafodaethau gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf, ac y dylai gael ei chynnwys yn y trafodaethau hynny.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod ERW wedi mynegi pryderon ynghylch lechyd a Diogelwch yn rhan o'r trafodaethau hynny, pryderon a oedd yn ymwneud â desgiau ac ardaloedd swyddfa eraill, a'i fod wedi comisiynu gwaith i fynd i'r afael â'r pryderon hynny yn rhan o'r trafodaethau; byddai'r canlyniad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

CYTUNWYD:

- 1. y byddai adroddiad diweddarau yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ynghylch y trafodaethau a oedd yn mynd rhagddynt am feddiannaeth ERW o ofod swyddfa yn Y Llwyfan, ac y byddai'r Swyddog Monitro yn cael ei chynnwys yn y trafodaethau hynny;**
- 2. y byddai'r adroddiad i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf hefyd yn cynnwys canlyniad yr Arolwg lechyd a Diogelwch.**

4. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB AR GYFER CH3 2017-18, GYDAG ATODIAD.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 ei adroddiad ynghylch Monitro Cyllideb Ch3 2017-18 i'r Cyd-bwyllgor, i'w ystyried.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Swyddog Adran 151 sylw'r Cyd-bwyllgor at ddyfarniad grant gwerth £250 mil gan Lywodraeth Cymru tuag at gost Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW. Cyfeiriodd hefyd at y gwaith i'w wneud o dan yr adolygiad hwnnw, ac awgrymodd y dylid dileu'r ddau argymhelliad canlynol yn ei adroddiad, hyd nes y byddai ERW wedi penderfynu ar ei gyfeiriad ar gyfer y dyfodol:

- Bod y Cyd-bwyllgor yn cytuno i ERW fynd ar drywydd ei yswiriant ei hun ar gyfer y dyfodol,
- Bod y Cyd-bwyllgor yn cytuno i recriwtio Rheolwr Ariannol, ar gontract tymor penodol, i'w ariannu o gyllid Adolygu a Diwygio Llywodraeth Cymru

Wrth ymateb i gwestiwn am y grant uchod gan Lywodraeth Cymru, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr mai grant ar gyfer cyfnod penodol o amser ydoedd, i'w ddyrannu dros gyfnod o 13 mis; felly, byddai'n cael ei gario drosodd i flwyddyn ariannol 18/19.

Gwnaethpwyd cyfeiriad pellach at y tîm adolygu a'r cadarnhad, y manylir arno yng nghofnod 3 uchod, y dylai gynnwys y chwe Chyfarwyddwr Addysg. Awgrymwyd y dylai'r Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol hefyd fod yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny.

Wrth ymateb i gwestiwn yn ymwneud â'r ffaith bod arian grant yn dod i law yn hwyr, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac yn derbyn ei bod yn creu anawsterau o ran cynllunio. Roedd Llywodraeth Cymru bellach yn bwriadu cyflwyno hysbysiad cynnar o ddyfarniadau



grant, gyda'r gobaith y byddai hynny'n sicrhau mwy o hyblygrwydd ac yn gwella'r sefyllfa bresennol.

Cyfeiriwyd at y broses o ddyrannu grantiau gan ERW i'r chwe Awdurdod Lleol, a gofynnwyd am sicrwydd eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r fformiwla gyllido y cytunwyd arni'n flaenorol gan y Cyd-bwyllgor (Gweler Cofnod 3 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2015 ynghylch dosbarthu'r Grant Gwella Addysg). Nodwyd bod cyfarfod o'r Cyfarwyddwyr Addysg wedi cael ei drefnu ar gyfer yr wythnos honno, lle byddent yn trafod y fformiwla gyllido. Pe byddai'n briodol, gellid trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor i drafod unrhyw newidiadau a awgrymid i'r fformiwla ar gyfer dyrannu grantiau 18-19. Hefyd, gallai pob Cyfarwyddwr archwilio'r dyraniadau grant i'w hawdurdod er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu gwneud yn unol â'r fformiwla.

Gofynnwyd i'r Swyddog Adran 151 gadarnhau nas gofynnwyd iddo gynnwys unrhyw adroddiadau eithriadol mewn perthynas â defnyddio dulliau dosbarthu cyllid amgen. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 nad oedd yr un dull dosbarthu amgen, hyd y gwyddai, wedi cael ei ddefnyddio.

CYTUNWYD:

- 4.1 y dylid nodi Diweddariad Ariannol ERW – Chwarter 3 ar gyfer 2017-18;**
- 4.2 y dylid cymeradwyo'r newidiadau i Ddyraniadau Grant Cyllideb Refeniw Tîm Canolog ERW (yn amodol ar gael sicrwydd bod y dyraniadau wedi cael eu gwneud yn unol â'r fformiwla gyllido y cytunwyd arni'n flaenorol) a chronfeydd wrth gefn ERW ar gyfer 2017-18;**
- 4.3 y dylid nodi'r risgiau i'r rhanbarth o ystyried faint o arian craidd yr oedd yn ei gael a'r effaith ar gronfeydd wrth gefn y rhanbarth dros y tymor canolog, ynghyd â newidiadau a ragwelid i strwythur a gweithrediadau ERW;**
- 4.4 Y dylid dileu'r ddau argymhelliad y manylid arnynt yn yr adroddiad, yn unol â'r rhesymau a amlinellwyd uchod;**
- 4.5 y dylai'r Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a'r Cynrychiolydd Adnoddau Dynol fynd i gyfarfodydd Tîm Adolygu ERW.**

5. ADRODDIAD CYLLIDEB 2018-19.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 ei adroddiad ynghylch Cyllideb 2018-19 i'r Cyd-bwyllgor, i'w ystyried.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Swyddog Adran 151 sylw'r Cyd-bwyllgor at lythyr a gafwyd gan Lywodraeth Cymru (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod), a oedd yn manylu ar ddyraniad y Grant Gwella Ysgolion i ERW ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019. Cyfanswm y grant oedd £40,971,102, ac roedd wedi cael ei ddyrannu ar sail Pum Blaenoriaeth y Genhadaeth Genedlaethol, ac wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun Busnes yn unol â hynny. Er bod y dyfarniad hwnnw, ar y cyd â'r dyraniad gwerth £29 miliwn o'r Grant Datblygu Disgyblion, yn



creu cyfanswm o bron £64 miliwn, £63.1 miliwn oedd cyfanswm y dyraniad gwirioneddol gan Lywodraeth Cymru, ac roedd eglurhad yn cael ei geisio ynghylch yr anghysondeb hwnnw. Felly, roedd cyfanswm y dyraniad grant oddeutu £63-£64 miliwn, a oedd yn llai na'r £71 miliwn a gafwyd ar gyfer 2017-18.

O ran Cyfraniad yr Awdurdodau Lleol at gostau craidd ERW, sef £250 mil, dywedodd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi penderfynu peidio â pharhau â'i gyfraniad ar gyfer 2018-19, a hynny oherwydd cyfyngiadau cyllidebol; byddai angen cael eglurhad ynghylch y penderfyniad hwnnw.

Wrth gloi, cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at y pedwar argymhelliad y manylwyd arnynt, a gofynnodd am i'r argymhelliad i (d) penodi rheolwr cyllid yn amodol ar ganlyniad adolygiad ERW, gael ei ddileu.

Mynegwyd pryder ynghylch penderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i beidio â chyfrannu at gostau craidd ERW ar gyfer 2018-19, cyfraniad a oedd yn werth £69,650, ac y dylid cael eglurhad ynghylch y penderfyniad hwnnw a chanfod a oedd yr Awdurdod hwnnw yn dymuno parhau yn bartner yn ERW, o gofio gofynion y Cytundeb Cyfreithiol wrth sefydlu ERW.

Wrth ymateb i gwestiwn am gost uwch Cytundebau Lefel Gwasanaeth, cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 fod hynny'n deillio o benderfyniad blaenorol gan ERW y dylent adlewyrchu gwir gost ERW. Awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad llawn ar y CLGau yn y cyfarfod nesaf.

Cyfeiriwyd at y drafodaeth yng nghofnod 4 uchod ynghylch y fformiwla gyllido ar gyfer dyrannu grantiau Llywodraeth Cymru i'r chwe Awdurdod. Awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad ar fethodoleg ei dyraniadau ar gyfer 2018-19 yn y cyfarfod nesaf.

CYTUNWYD:

- 5.1 y dylid cymeradwyo cyllideb alldro ragamcanol 2017-18, a chyllideb ddrafft 2018-19;**
- 5.2 Y dylid awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud diwygiadau i'r gyllideb, lle bo angen, yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneid i adolygu strwythur ERW**
- 5.3 y dylai'r Awdurdodau Lleol dalu eu cyfraniadau at gostau craidd ERW;**
- 5.4 y dylid dileu argymhelliad (d) oherwydd y rheswm y manylir arno yng nghofnod 4 uchod;**
- 5.5 y dylid gofyn am eglurhad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ynghylch ei gyfraniad at gostau craidd ERW ar gyfer 2018/19 a'i fwriad o ran ei aelodaeth o ERW yn y dyfodol, a hynny o gofio gofynion y Cytundeb Cyfreithiol wrth sefydlu ERW;**
- 5.6 y dylid cyflwyno adroddiad ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth ERW yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor;**
- 5.7 y dylai'r Cyd-bwyllgor bennu'r modd y câi'r fethodoleg ar gyfer dosbarthu grantiau ar gyfer 2018-19 ei hystyried a'i chymeradwyo.**



6. CATEGOREIDDIO.

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar y broses o gategoreiddio ysgolion yn rhanbarth ERW, adroddiad a oedd yn manylu ar yr hyfforddiant a roddid i'r Ymgynghorwyr Her, y prosesau cymedroli a sicrhau ansawdd, a chanlyniadau'r broses genedlaethol o gategoreiddio ysgolion, a gynhaliwyd yn nhymor yr hydref.

Er bod y tîm canolog, yn draddodiadol, yn ymwneud â'r broses gategoreiddio ar ddiwedd y cam sicrhau ansawdd, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y chwe Chyfarwyddwr Addysg yn ERW wedi cytuno y gallent fod yn rhan o'r broses ar gam cynharach. Roedd y broses gategoreiddio ddrafft wedi cael ei rhoi ar waith ym mis Gorffennaf 2017, ac wedi cael ei chwblhau ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Er bod ERW yn gweithio gyda'r tri chonsortium addysg arall yng Nghymru i sicrhau cysondeb wrth gymedroli, dywedodd ei bod yn debygol y byddai newidiadau'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol mewn perthynas â chategoreiddio a hunanwerthuso, a bod trafodaethau ynghylch hynny yn mynd rhagddynt yn genedlaethol. Fodd bynnag, roedd cynigion cadarn yn yr arfaeth mewn perthynas â hynny.

Cadarnhaodd Mr Vincent fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i ddatblygu fframwaith hunanwerthuso cenedlaethol a chyflwyno amrywiaeth newydd o ddangosyddion perfformiad; disgwyliad y byddai fframwaith drafft yn cael ei gynhyrchu erbyn mis Medi 2018, ac y byddai mesurau perfformiad dros dro yn cael eu cyflwyno yn ystod 2019. Cadarnhaodd y byddai'n barod i gyflwyno adroddiad ar yr adborth a gafwyd ar y cynigion hynny mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at ddiben cychwynnol y broses gategoreiddio, sef nodi'r cymorth yr oedd ar ysgolion ei angen i sicrhau gwelliannau, yn hytrach na bod yn offeryn i nodi ysgolion gwael. Felly, roedd yn bwysig bod y neges yn cael ei chyfleu i rieni nad oedd yr ysgolion a gategoreiddiwyd yn rhai Coch neu Ambr yn ysgolion a oedd yn methu, ond yn hytrach yn ysgolion yr oedd arnynt angen cymorth ychwanegol i sicrhau gwelliant parhaus.

Cyfeiriwyd at y broses gategoreiddio ac at yr ysgolion hynny yn y rhanbarth a oedd wedi'u nodi'n ysgolion yr oedd arnynt angen cymorth. Mynegwyd y farn bod angen i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor, a oedd yn manylu ar y broses ymyrryd a lefelau'r ymyrraeth a oedd ar gael i ERW a'r Awdurdodau Addysg.

CYTUNWYD:

- 6.1 y dylid derbyn yr adroddiad ar y broses gategoreiddio;
- 6.2 y dylid cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor a oedd yn manylu ar y broses ymyrryd a lefelau'r ymyrraeth a oedd ar gael i ERW a'r Awdurdodau Addysg.

7. COFRESTR RISGIAU.



Rhoddwyd copi o'r Gofrestr Risgiau i'r Cyd-bwyllgor, a oedd yn tynnu sylw at y prif risgiau yn y meysydd Corfforaethol, Ariannol a Gwella Ysgolion, gan alluogi ERW i leihau'r potensial o risgiau lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Er na fu unrhyw newidiadau i'r gofrestr ers iddi gael ei chyflwyno'n flaenorol i'r Cyd-bwyllgor, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y dylid bod yn ymwybodol o'r tebygolrwydd y gallai risgiau godi yn sgil Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW, ac y byddai angen i'r risgiau hynny gael eu harchwilio a'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau, lle bynnag y bo hynny'n briodol. Er mai Tîm Canolog ERW a oedd yn gyfrifol am Risgiau canolog, roedd pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am reoli ei risgiau ei hun. Yn hynny o beth, roedd prosesau newydd wedi cael eu cyflwyno i sicrhau cysondeb o ran y modd y cofnodwyd y risgiau ledled pob awdurdod lleol. Roedd hyfforddiant hefyd yn cael ei ddarparu yn rhan o'r dull gweithredu hwnnw.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr gadarnhau bod y chwe Chyfarwyddwr wedi cymeradwyo'r risgiau a nodwyd yn ganolog. Cadarnhawyd nad oedd hyn wedi digwydd.

Cyfeiriwyd at fformat yr adroddiad, a mynegwyd y farn bod angen i'r gofrestr nodi'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am reoli'r risgiau a manylu ar unrhyw gynllun gweithredu/amserlen i fynd i'r afael â'r risgiau, a'u lliniaru. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Arweiniol y byddai'n codi'r mater gyda'r swyddogion priodol.

PENDERFYNWYD y dylid cael a chymeradwyo'r gofrestr risgiau, ac eithrio'r elfen ganolog. Byddai hyn yn cael ei adolygu gan y chwe Chyfarwyddwr, a'i ailgyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor.

8. CYNLLUN BUSNES.

Cyflwynwyd Cynllun Busnes drafft ERW ar gyfer 2018-21 i'r Cyd-bwyllgor ei ystyried. Roedd y Cynllun Busnes hwn yn cynnwys yr holl flaenoriaethau strategol a fyddai'n arwain gwaith y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodwyd gan bob un o'r chwe Awdurdod Lleol, ac roedd yn gyson â Chenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod angen i ragor o waith gael ei wneud ar y ddogfen, gan roi ystyriaeth i'r trefniadau cyllido newydd, deilliannau, a'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau lleol yn ogystal â Phum Blaenoriaeth Cenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Wrth ymateb i gwestiwn am y gwaith o gyd-adeiladu'r Model Cenedlaethol, cadarnhawyd mai Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am gysylltu â Phrif Weithredwyr Arweiniol a Rheolwyr Gyfarwyddwyr y pedwar consortiwm rhanbarthol, ynghyd â CLILC. Rhagwelwyd y byddai'r fersiwn ddrafft gyntaf yn cael ei chwblhau yn y dyfodol agos; byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn dilyn hynny, gan ddilyn yr un patrwm, yn fras, â'r hyn a fabwysiadwyd ar gyfer y model cenedlaethol cyfredol.

Cyfeiriwyd at y diffyg manylder yn y cynllun busnes mewn perthynas â chynlluniau cyflawni a gweithredu, ynghyd â'r angen i sicrhau bod y meysydd hynny'n cael eu



nodi mewn unrhyw fersiwn ddrafft ddiwygiedig cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cyd-bwyllgor.

CYTUNWYD y dylid ailysgrifennu Cynllun Busnes drafft ERW ar gyfer 2018-2021.

9. Y RHAGLEN ADOLYGU A DIWYGIO.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor am ei benderfyniad blaenorol i sefydlu tîm prosiect i fynd ati i adolygu a diwygio ERW. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, er bod ERW yn ymwybodol o'r adolygiad cyfredol o'r Model Cenedlaethol, a allai effeithio ar y rhaglen adolygu a diwygio, dywedodd y byddai'r Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch y bwriad i leihau nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru i 10, yn golygu goblygiadau ychwanegol o ran y diwygio hwnnw. Fodd bynnag, nodwyd bod y Gweinidog, yn rhan o'r cyhoeddiad hwnnw, wedi nodi bod disgwyl i'r trefniadau cydweithredu presennol barhau.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Arweiniol hefyd at lythyr, a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, gan Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a oedd yn gofyn am adroddiad cynnydd ar gynlluniau ERW ar gyfer gwella Trefniadau Llywodraethu yn y dyfodol a sicrhau bod strwythurau addas ar waith i'w alluogi i ymateb i Argymhellion Estyn, ac ar y gwaith o baratoi cynllun gweithredu. Dywedodd y byddai cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet yn cael ei gynnal ar 24 Ebrill 2018, a bod sylwadau'r Cyd-bwyllgor yn cael eu ceisio ynghylch y materion i'w codi.

Wrth roi sylw i'r mater, roedd y Cyd-bwyllgor wedi ystyried yr angen i amlygu'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran cyfeiriad ERW ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys darparu enghreifftiau o arfer gorau a thystiolaeth o'r modd yr oedd yn bwriadu gwella sgiliau a deilliannau'r dysgwyr.

Atgoffodd y Prif Weithredwr Arweiniol y Cyd-bwyllgor ei fod wedi cytuno'n flaenorol fod angen cynnal cyfarfod i drafod y fethodoleg ar gyfer dosbarthu grantiau ar gyfer 2018-19, ac awgrymodd y dylid cyflwyno adroddiad yn y cyfarfod hwnnw, pe byddai mod, yn amlinellu'r pwyntiau arfaethedig i'w cyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet ar 24 Ebrill.

CYTUNWYD y dylid derbyn y diweddariad.

CADEIRYDD

DYDDIAD

